Datblygu Busnes
Business Development

Inspiring Learning,
Enriching Lives, Delivering Success

Offeryn Osgoi Cebl NPORS N304 (Rhan-Amser)

Mae cwrs Offeryn Osgoi Ceblau NPORS N304 yn darparu hyfforddiant hanfodol ar ddefnyddio offer osgoi ceblau (CAT) a generaduron signalau (Genny) yn ddiogel ac yn effeithiol. Mae'r cwrs yn cwmpasu gwybodaeth ddamcaniaethol a sgiliau ymarferol, gan gynnwys gwiriadau cyn-weithredol, technegau gweithredu diogel, a gweithdrefnau ôl-weithredol.

Mae'r cwrs hwn wedi'i gynllunio ar gyfer unigolion sydd angen y wybodaeth a'r sgiliau ymarferol i weithredu offer osgoi ceblau yn ddiogel. Mae'n addas ar gyfer ymgeiswyr o bob gallu, gan gynnwys y rhai heb gyfarwyddyd ffurfiol blaenorol.

Gofynion Mynediad

Rhaid i gyfranogwyr fod â dealltwriaeth dda o Saesneg llafar ac ysgrifenedig. I'r rhai sy'n ceisio Cerdyn CSCS NPORS, mae'n ofynnol iddynt basio Prawf Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd CITB o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf.

Rhagolygon Gyrfa

Ar ôl cwblhau'n llwyddiannus, gall cyfranogwyr symud ymlaen i ardystiadau NPORS mwy datblygedig neu ddilyn cymwysterau NVQ perthnasol i uwchraddio eu Cerdyn Gweithredwyr Hyfforddedig Coch NPORS i Gerdyn Gweithredwyr Cymwys Glas.

Modiwlau'r cwrs

Mae'r cwrs hwn yn cwmpasu:
– Trosolwg o'r diwydiant a chyfrifoldebau gweithredwyr
– Llawlyfr y gwneuthurwr a deddfwriaeth berthnasol
– Prif gydrannau a'u swyddogaethau
– Gwiriadau cyn-weithredol a gweithdrefnau diogelwch
– Technegau gweithredu diogel
– Ystyriaethau amgylcheddol
– Gweithdrefnau diwedd shifft a chau i lawr

Asesiad

Caiff cyfranogwyr eu hasesu drwy gyfuniad o brofion damcaniaethol (cwestiynau agored a dewis lluosog) a phrofion ymarferol.

DULL ASTUDIO

SC

LLEOLIAD

Coleg Castell-nedd - 01639 648000

HYD Y CWRS

Undydd

FFIOEDD

19/20 fees: £400